# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

**DYDD** Llun, 17 Medi 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Regeneration Meeting Room, County Hall, Carmarthen - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP. - 1.30 - 1.35 pm

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG Y BROSES BENDERFYNU YNGHYLCH TREFNIADAETH YSGOLION

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch diwygio Proses Benderfynu ynghylch Trefniadaeth Ysgolion y Cyngor yn sgil Côd Trefniadaeth Ysgolion newydd y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ei gyhoeddi.

Dywedwyd bod polisi trefniadaeth ysgolion presennol y Cyngor yn cynnwys proses 3 cham lle roedd gan y Bwrdd Gweithredol awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo Cam 1 (Caniatâd i ymgynghori) a Cham 2 (Caniatâd i hysbysu), a lle roedd y Cyngor yn cymeradwyo Cam 3 (Caniatâd i weithredu). Petai'n cael ei fabwysiadu, byddai'r cynnig diwygiedig yn golygu cyflwyno pedwerydd cam, sef Cam 0 (fel y dangosir yn y siart llif esboniadol sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad). Byddai hynny'n dechrau drwy gynnal ymarfer cwmpasu a chasglu gwybodaeth ynghylch yr ysgol(ion) sy'n cael ei/eu hadolygu. Ar ôl cwblhau hynny, byddai Adroddiad Adolygu Ysgol yn cael ei gyflwyno i Dîm Rheoli Adrannol y Gwasanaethau Addysg a Phlant i benderfynu a ddylid ymgysylltu â rhanddeiliaid. Petai'r Tîm Rheoli Adrannol yn gwrthod rhoi caniatâd, byddai'r cynnig yn dod i ben bryd hynny. Fodd bynnag, petai caniatâd yn cael ei roi, yna byddai swyddogion yn ymgysylltu â'r aelod(au) lleol perthnasol, y Pennaeth (Penaethiaid) a Chadeirydd y Llywodraethwyr (ac unrhyw ysgol y byddai'r mater yn effeithio arni o bosibl) ynghylch opsiynau priodol ar gyfer yr ysgol(ion) sy'n cael ei/eu hadolygu. Wedyn byddai canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu anffurfiol hwnnw yn cael eu cofnodi mewn Adroddiad Cynnig a fyddai'n cynnwys opsiwn a ffefrir ac adborth ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn cael caniatâd i ymgynghori (Cam 1).

Credwyd y byddai cynnwys Cam 0 yn arwain at system fwy agored a thryloyw, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai'n dangos bod yr Awdurdod wedi ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer yr ysgol(ion) sy'n cael ei/eu hadolygu heb ragdybio y byddant yn cau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r broses ddiwygiedig o gyflwyno adolygiadau strategol a chynigion statudol, fel y nodir yn y siart llif esboniadol sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Bancyfelin<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd J. Tustin |
| Carwe/Gwynfryn/Pont-henri<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr T. Jones |
| Stebonheath<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs L. Trinkwon |
| Y Fro<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr I. Jones |
| **Ysgol Arbennig** | **Penodiadau** |
| Heol Goffa<br>(1 lle gwag - 1 enwebiad o 21/11/18) | Ms W. Evans |

## 4. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5ED GORFFENNAF, 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir.**

______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**